# Datganiad o ran diweddaru cynnwys a gynhyrchwyd cyn diwedd cyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd neu tra'r oedd y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd

O 1 Ionawr 2021, byddwn ni'n diweddaru cyfeiriadau at gyfraith, systemau a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd yn ein cynnwys. Rydym ni wedi ymrwymo i gael cyfundrefn reoleiddio gadarn ac effeithiol ar waith, a fydd yn golygu y gall busnes barhau fel arfer.

### Mae cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) wedi'i throsi yn gyfraith y Deyrnas Unedig (DU)

Trosodd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (yr 'EUWA') fel y'i diwygiwyd deddfwriaeth yr UE sy'n uniongyrchol berthnasol (yn benodol, Rheoliadau a Phenderfyniadau'r UE) fel yr oedd ar ddiwedd y cyfnod pontio (11pm 31 Rhagfyr 2020) yn gyfraith ddomestig. Mae'n cadw deddfwriaeth a wnaed yn y DU yn flaenorol i weithredu rhwymedigaethau'r UE.

Yn gyffredinol, yr un effaith a sydd gan y ddeddfwriaeth ag yr oedd ganddi yn flaenorol cyn diwedd y cyfnod pontio, oni bai y caiff ei newid gan y Senedd, neu tan hynny. Mae peth deddfwriaeth wedi'i diwygio gan offerynnau statudol (OSau) a wnaed o dan yr EUWA. Mae hyn gan fod yr EUWA wedi creu pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth i gywiro diffygion yng 'nghyfraith yr UE a ddargedwir' i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithio'n iawn ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol o 1 Ionawr 2021 mewn perthynas â'r rhan fwyaf o gyfraith hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, fel a restrir ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon, ac nid yw cyfraith yr UE a ddargedwir yn berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan yr amgylchiadau hynny.

## Cyfraith yr UE a ddargedwir *(retained EU law)*

I chwilio am gyfraith yr UE a ddargedwir, ewch i www.legislation.gov.uk a defnyddiwch y dewis chwilio 'All UK Legislation (inclusing originating from the EU)'. Byddwn yn diweddaru cyfeiriadau a dolenni perthnasol yn ein cynnwys.

Bydd Archif We Ymadael â'r UE yn cynnwys fersiynau o ddeddfwriaeth yr UE o EUR-LEX fel yr oeddent ar ddiwedd y cyfnod pontio.

## Offerynnau statudol Ymadael â'r UE yr ASB

Mae rhestr lawn o'n OSau Ymadael â'r UE i drwsio elfennau anweithredol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid i'w gweld isod.

Bydd yr OSau hyn, sy'n weithredol ledled y DU, yn sicrhau y bydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu ym Mhrydain Fawr. Maent hefyd yn cynnwys cywiriadau gorfodi cenedlaethol Lloegr i sicrhau bod rheoliadau gorfodi cyfredol sy'n berthnasol i Loegr yn unig yn parhau i weithredu'n

iawn o fewn cyfraith yr UE a ddargedwir. Mae Cymru a'r Alban wedi cynhyrchu eu OSau cenedlaethol eu hunain i sicrhau bod eu rheoliadau gorfodi cenedlaethol yn parhau i weithio'n iawn o fewn cyfraith yr UE a ddargedwir.

Mae Gogledd Iwerddon wedi bwrw ymlaen â diwygiadau i ddeddfwriaeth ddomestig Gogledd Iwerddon i adlewyrchu'r ffaith bod cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu bwyd o fewn cylch gwaith polisi'r ASB yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) (Gogledd Iwerddon) 2020 yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006 a Rheoliadau D?r Mwynol Naturiol, D?r Ffynnon a D?r Yfed wedi'i Botelu (Gogledd Iwerddon) 2015.

Deddfwriaeth sydd wedi'i chreu:

- Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Cyfraith Bwyd Cyffredinol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Hylendid Bwyd Cyffredinol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Bwydydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lefelau o Halogiad Ymbelydrol a Ganiateir) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Rheolaethau Swyddogol ar gyfer Bwyd, Bwyd Anifeiliaid ac Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Mewnforion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Chernobyl a Fukushima) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Egin a Hadau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Bwyd Newydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Rheoliad (CE) Rhif 853/2004) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020

Mae'r OSau uchod yn dilyn ein hymgynghoriad ar ddull arfaethedig tuag at gyfraith yr UE a ddargedwir ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid a'n hymgynghoriad ar ddiwygiadau pellach sy'n ofynnol i gefnogi gweithrediad Protocol Gogledd Iwerddon (NIP) a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn briodol ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

## Offerynnau Statudol Deddf UE (Cytundeb Ymadael) Defra ac adrannau eraill y llywodraeth

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi rhestr o offerynnau statudol yr ASB ac adrannau eraill y llywodraeth sydd wedi'u gosod a'u nodi fel rhai sy'n effeithio ar awdurdodau lleol.  Mae rhai o'r offerynnau statudol wedi'u cynnwys yn yr adran enghreifftiau o

ddeddfwriaeth isod.

## Newid cyfeiriadau yng nghyfraith yr UE i gyfraith, sefydliadau, systemau a phrosesau'r DU

### Prydain Fawr

Rhaid i'r ASB sicrhau bod yr holl ddogfennau canllaw a'r deunydd y mae hi'n eu cynhyrchu fel rhan o'i rôl fel yr awdurdod cymwys canolog, ac sydd â goblygiadau cyfreithiol o ran cynnal rheolaethau swyddogol yn gyffredinol, yn cynnwys y cyfeiriadau cywir at gyfraith y DU (yn ogystal â chyfraith perthnasol yr UE, mewn perthynas â Gogledd Iwerddon) a phob swyddogaeth, system a sefydliad perthnasol.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cywiro unrhyw gyfeiriadau at yr UE, sefydliadau, systemau a phrosesau na fydd y DU mewn perthynas â Phrydain Fawr yn dibynnu arnynt mwyach.

Rhaid i'r ASB sicrhau bod yr holl ddogfennau canllaw a'r deunydd y mae hi'n eu cynhyrchu fel rhan o'i rôl fel yr awdurdod cymwys canolog ac sydd â goblygiadau cyfreithiol o ran cynnal rheolaethau swyddogol yn gyffredinol, yn cynnwys y cyfeiriadau cywir at gyfraith yr UE mewn perthynas â Gogledd Iwerddon. Bydd canllawiau'r ASB yn parhau i fod 'yn gyfredol' ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yng nghyfraith berthnasol yr UE at ddibenion Gogledd Iwerddon.

Rydym ni'n blaenoriaethu'r materion hynny y mae'n rhaid eu newid er mwyn i bob awdurdod gorfodi bwyd allu gorfodi'r gyfraith o'r diwrnod cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys:

- ffurflenni ardystio a ffurflenni cyfreithiol rhagnodedig a ddefnyddir gan awdurdodau gorfodi
- y system a ddefnyddir i hysbysu awdurdodau'r DU am gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel o'r UE
- marciau iechyd ac adnabod ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, fel cig, cynhyrchion wyau, pysgod, caws a llaeth

O 1 Ionawr 2021, bydd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gyfrifol am lawer o'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop. Darllenwch ragor am y broses dadansoddi risg diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid o 1 Ionawr 2021. Mae'r newid hwn yn golygu y bydd cyfeiriadau at Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a sefydliadau eraill yr UE wedi cael eu disodli gan gyfeiriadau at yr ASB, Safonau Bwyd yr Alban a gweinidogion iechyd.

## Dogfennaeth orfodi

Byddwn ni'n diweddaru dogfennau gorfodi a gynhyrchwyd cyn diwedd cyfnod pontio'r UE neu tra'r oedd y DU yn yr UE.

Rhaid i'r ASB sicrhau bod yr holl ddogfennau canllaw a'r deunydd y mae hi'n eu cynhyrchu fel rhan o'i rôl fel yr awdurdod cymwys canolog, ac sydd â goblygiadau cyfreithiol o ran cynnal rheolaethau swyddogol yn gyffredinol, yn cynnwys y cyfeiriadau cywir at gyfraith y DU (yn ogystal â chyfraith perthnasol yr UE, mewn perthynas â Gogledd Iwerddon) a phob swyddogaeth, system a sefydliad perthnasol.

Rydym ni'n blaenoriaethu'r materion hynny y mae'n rhaid eu newid er mwyn i bob awdurdod gorfodi bwyd allu gorfodi'r gyfraith o'r diwrnod cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni ardystio a ffurflenni cyfreithiol rhagnodedig a ddefnyddir gan awdurdodau gorfodi. Mae cyfeiriadau eraill yn cael eu hadolygu a'u blaenoriaethu a chânt eu diweddaru maes o law.

Yng Ngogledd Iwerddon, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol o 1 Ionawr 2021 mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r gyfraith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, a safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu, fel y'u rhestrir ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon, ac ni fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan yr amgylchiadau hynny.

## Rheoliadau gorfodi

Bydd yr holl reoliadau gorfodi domestig sy'n benodol i'r gwledydd yn parhau i fod mewn grym ac yn gweithredu'r darpariaethau gweinyddol hanfodol y mae swyddogion awdurdodedig yn dibynnu arnynt, fel:

- pwerau mynediad
- pwerau i gyflwyno hysbysiadau ffurfiol
- troseddau
- cosbau
- terfynau amser i ddwyn achos
- eglurhad ar awdurdodaethau gorfodi

## Negeseuon allweddol eraill

- Cafodd Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 (ECA) ei diddymu ar 31 Ionawr 2020 gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (EUWA). Fodd bynnag, cafodd rhai o ddarpariaethau'r ECA eu 'harbed' wedi hynny trwy welliannau a wnaed i'r EUWA o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.
- Bydd deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE yn eu fersiynau cyfunol yn cael eu hymgorffori yng nghyfraith y DU  o 1 Ionawr 2021.
- Ni fydd teitlau'r holl ddeddfwriaeth diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE a ddargedwir yn newid.
- Mae'r ASB wedi cynhyrchu Canllawiau Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid fel adnodd cyfeirio ar gyfer deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r ASB yn ceisio sicrhau bod yr wybodaeth sydd yn y canllawiau yn gywir ac yn gyflawn adeg eu cyhoeddi, ond ni warantir bod yr wybodaeth yn hollol gywir a chyflawn. Mae gan yr Archifau Cenedlaethol ddyletswydd statudol i gyhoeddi'r gyfraith sy'n berthnasol ledled y DU yn gywir. Dylech chi gyfeirio at yr Archifau Cenedlaethol ( legislation.gov.uk) i wirio'r gyfraith fel y mae'n berthnasol o bryd i'w gilydd.
- Mae amryw dermau UE (fel y Gymuned Ewropeaidd, yr Undeb Ewropeaidd, aelod-wladwriaethau) wedi'u dileu gan na fyddant bellach yn berthnasol yng nghyd-destun cyfraith bwyd y DU.
- Mae'r OSau hyn yn trwsio unrhyw elfennau anweithredol posibl sydd wedi'u cynnwys yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a'r rheoliadau gweithredu domestig priodol. Gweler yr enghreifftiau isod.
- O 1 Ionawr 2021, pan fyddwn yn cyhoeddi canllawiau newydd a diwygiedig, byddwn yn ceisio sicrhau bod croesgyfeiriadau yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r gyfraith sydd mewn grym yn y DU ar y pryd (Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon).?
- Bydd angen i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd bennu sut orau i adolygu eu canllawiau a'u dogfennaeth eu hunain a'u diwygio yn ôl yr angen i adlewyrchu'r newidiadau yn y gyfraith.

## Enghreifftiau o ddeddfwriaeth

Mae'r enghreifftiau canlynol yn berthnasol yn Lloegr yn unig. Fodd bynnag, bydd yr un egwyddorion yn berthnasol i ddeddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid genedlaethol ac i ddeddfwriaeth gysylltiedig arall sy'n gyfrifoldeb polisi Defra ac adrannau amaethyddol

gweinyddiaethau datganoledig Cymru a’r Alban.

Yng Ngogledd Iwerddon, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol o 1 Ionawr 2021 (gweler uchod). Bydd rheolau'r UE yn parhau i gael eu gorfodi yng Ngogledd Iwerddon trwy reoliadau cenedlaethol presennol Gogledd Iwerddon, sy'n cynnwys Rheoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006, Rheoliadau Swyddogol Rheoli Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2009 a Rheoliad Bwyd Cyffredinol (Gogledd Iwerddon) 2004.

Deddfwriaeth ddomestig Cymru:

- Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Safonau Bwyd a Labelu (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019
- Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2019
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019
- Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau ac Arbedion Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Diogelwch bwyd

Mae rheoliad diogelwch bwyd yr UE 'Rheoliad (CE) 178/2002' yn parhau i gael ei gyfeirio ato fel Rheoliad (CE) 178/2002. Gwnaed cywiriadau i'r rheoliad UE hwn a Rheoliadau Diogelwch Bwyd a Hylendid (Lloegr) 2013 (sy'n caniatáu ar gyfer ei orfodi yn Lloegr) trwy'r OS trwsio, sef Rheoliadau Cyfraith Bwyd Cyffredinol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019. Mae'r un egwyddor yn gymwys i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 931/2011 ar y gallu i olrhain.

Mae Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013 i ddarparu ar gyfer darpariaeth drosiannol mewn perthynas â'r defnydd parhaus, am gyfnod penodol, o stociau hanesyddol o labeli, deunydd lapio a deunydd pecynnu sy'n cynnwys y marc adnabod ‘UK/EC’. Darllenwch ein canllawiau yma am yr hyn sy'n berthnasol ym Mhrydain Fawr ac yng Ngogledd Iwerddon.

## Hylendid bwyd

Yn yr un modd, mae rheoliadau hylendid yr UE (a restrir isod) yn parhau i gael eu gorfodi yn Lloegr trwy Reoliadau Diogelwch Bwyd a Hylendid (Lloegr) 2013:

- Rheoliad (CE) 852/2004
- Rheoliad (CE) 853/2004
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/1375
- Rheoliad (CE) 2073/2005

Roedd Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Hylendid Bwyd Cyffredinol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â’r UE) 2020, yn gwneud amryw newidiadau i ddeddfwriaeth hylendid bwyd yr UE a ddargedwir

a'i rheoliadau gorfodi domestig er mwyn caniatáu iddynt barhau i fod yn weithredol yn y DU mewn perthynas â Phrydain Fawr.

Mae Rheoliad (UE) 2017/625 ac elfennau deddfwriaeth perthnasol eraill, i'r graddau y maent yn ymwneud â bwyd, yn parhau i fod â'r un teitlau. Bydd yr elfennau a arferai gael eu cynnwys yn Rheoliad (CE) 854/2004 (er enghraifft Rheoliad (UE) 2019/627) yn parhau i gael eu gorfodi trwy Reoliadau Diogelwch Bwyd a Hylendid (Lloegr) 2013.

## Rheolaethau swyddogol

Mae elfennau Rheoliad (UE) 2017/625 a oedd yn flaenorol wedi'u cynnwys yn Rheoliad (CE) 882/2004 yn cael eu gorfodi trwy Reoliadau Swyddogol Rheoli Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lloegr) 2009 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2020 a Rheoliadau Swyddogol Rheoli Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lloegr) (Diwygiadau Amrywiol) 2019.

Mae y rheoliadau a ganlyn yn gwneud amryw o newidiadau i'r pecyn deddfwriaeth rheolaethau swyddogol a'i ddeddfwriaeth gweithredu domestig er mwyn caniatáu iddynt barhau i fod yn weithredol yn y DU:

- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion ac ati) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020
- Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion ac ati) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020

## Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE)

Mae Rheoliad (CE) 999/2001 yn parhau i gael ei orfodi trwy Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Lloegr) 2018. Bydd Rheoliad (CE) 999/2001 yn cael ei ddiwygio gan Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019, a wnaeth y newidiadau priodol sy'n ofynnol er mwyn i'r ddeddfwriaeth barhau i weithredu ar ôl i ni ymadael.

## Ychwanegion bwyd

Mae Rheoliad (CE) Rhif 1333/2008 ar ychwanegion bwyd, a Rheoliad (UE) Rhif 234/2011 a Rheoliad (CE) Rhif 1331/2008 sy'n sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd, yn parhau i gael eu gorfodi trwy'r Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Lloegr) 2013. Mae'r un peth yn wir am ddeddfwriaeth debyg yr UE ar gyflasynnau ac ensymau.

Roedd holl ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir a'i rheoliadau gorfodi domestig yn cael ei diwygio gan Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020, a wnaeth ddileu cyfeiriadau at sefydliadau'r UE fel Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a'r Comisiwn ac yn disodli ag endidau priodol y DU. Gall yr holl ychwanegion bwyd a awdurdodwyd cyn diwedd y cyfnod pontio barhau i gael eu defnyddio yn unol â'r manylebau a'r amodau defnyddio a bennir yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.

O 1 Ionawr 2021, bydd ceisiadau am ychwanegion, cyflasynnau ac ensymau newydd yn cael eu rheoli yn y DU gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban, a fydd, er enghraifft, yn gyfrifol am sicrhau y

caiff yr asesiad risg priodol ei lunio a darparu cyngor ar p'un a yw sylwedd newydd yn ddiogel a bod modd ei ychwanegu at restr o sylweddau cymeradwy. Fodd bynnag, mater i'r awdurdod priodol fel y caiff ei ddynodi fydd gwneud y penderfyniad rheoli risg terfynol ar awdurdodi ai peidio.

## Halogion mewn bwyd

Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 315/93 yn gosod gweithdrefnau'r Gymuned ar gyfer halogion mewn bwyd a Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1881/2006, sy'n gosod lefelau uchaf ar gyfer rhai halogion mewn bwydydd. Bydd Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020, wedi cywiro elfennau anweithredol o fewn deddfwriaeth halogion yr UE i adlewyrchu'r ffaith y bydd asesiadau risg a phenderfyniadau rheoli risg yn cael eu gwneud o fewn y DU.

## Deddfwriaeth bwyd anifeiliaid

Mae holl ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid yr UE (rhestr ddethol isod) yn parhau i gael eu gorfodi drwy reoliadau gweithredu domestig presennol:

- Rheoliad (CE) Rhif 183/2005 (sy'n gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid)
- Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003 (sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer ychwanegion a ddefnyddir mewn maeth anifeiliaid)
- Rheoliad (CE) Rhif 767/2009 (sy'n rheoli'r broses o roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'r defnydd ohono)
- Rheoliad (UE) Rhif 68/2013 (sy'n catalogio deunyddiau bwyd anifeiliaid)
- deddfwriaeth sy'n awdurdodi'r holl ychwanegion bwyd anifeiliaid unigol sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod pontio

Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud y newidiadau priodol sy'n ofynnol er mwyn i'r ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid uchod barhau i weithredu o 1 Ionawr 2021.